Enw _____

DARLLENWCH
2 Brenhinoedd 5: 1-27

ADNOD ALLWEDDOL
2 Brenhinoedd 5: 15

Astudiaeth 3 Eliseus a Swyddog y Fyddin

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Numeri 32:23 2 Corinthiaid 5:17 Galatiaid 6:7

Capten byddin brenin Syria (neu Aram) yw testun yr astudiaeth hon.

C **Sut ddyn oedd y capten hwn?** 2

Yn anffodus, roedd wedi dal y clefyd arswydus hwnnw – y gwahanglwyf neu'r leprosi – haint cyffredin nad oedd modd ei wella. Ond, gwyddai morwyn ifanc gwraig Naaman am rywun yn ei gwlad enedigol fyddai'n gallu ei iacháu.

C **Dim ond tri pherson sy'n cael eu henwi yn y bennod hon. Ysgrifennwch eu henwau yn y pos.**

1. Y proffwyd.
2. Capten y fyddin.
3. Gwas y proffwyd.



3

Cychwynnodd capten y fyddin ar ei daith i Israel. Cariai anrhegion drud a llythyr i frenin Israel yn y gobaith y câi iachâd ganddo.

C **Beth wnaeth Jehoram, brenin Israel, pan ddarllenodd y llythyr?** 1

C **Pam roedd e'n meddwl fod brenin Syria wedi gofyn am y fath beth amhosibl?** 1

C **Mae'r tri lle sy'n cael eu henwi yn y bennod yn ffitio i mewn i'r pos CRIS-GROES hwn.**

1. Roedd Eliseus yn byw yn ..... .
2. Daethai'r forwyn ifanc o ..... .
3. Soniodd Naaman am afonydd dinas o'r enw ..... .



Anfonodd Eliseus neges i ddweud wrth Naaman am ddod i'w dŷ. Ni ddaeth y proffwyd allan i siarad â Naaman. Ni ofynnodd iddo ddod i mewn chwaith ond anfonodd ei was i roi neges i'r capten.

C **Beth oedd y neges?** 1

C **Beth oedd ymateb cyntaf Naaman i hyn?**

C **Pwy gafodd berswâd arno i ddilyn cyfarwyddiadau Eliseus?**

Daeth Naaman yn ôl at Eliseus yn llawn diolchgarwch am ei iachâd gwyrthiol. Cynigiodd y milwr wobr i Eliseus, ond gwrthododd y proffwyd y rhodd. Roedd Naaman nid yn unig yn ddyn newydd ar y tu allan - cafodd ei iacháu o'r gwahanglwyf – ond roedd hefyd wedi'i newid oddi mewn. Eilunaddolwr oedd cyn hyn, yn addoli delw gau dduw.

C **Beth oedd enw'r gau dduw hwn?**

Nawr gwyddai mai dim ond un gwir Dduw oedd, a'r Duw a addolai Eliseus oedd hwnnw.

C **Ysgrifennwch y rhan honno o'r Adnod Allweddol sy'n dweud hynny wrthym.**

C **Ar ôl darganfod hyn, roedd yn bwriadu newid ei ffordd o fyw. Beth na fyddai'n ei wneud o hyn ymlaen? (Adnod 17)**

Mae Duw yn newid bywydau pobl.
A yw Ef wedi newid eich bywyd chi?

C **Beth ddywedodd Eliseus wrth Naaman cyn ymadael?**

Roedd Gehasi wedi bod yn was i Eliseus ers cryn amser.
Wrth iddo feddwl am y rhoddion drud a wrthodwyd gan ei feistr, aeth trachwant yn drech na Gehasi a rhedodd ar ôl Naaman.

C **Pa gelwydd ddywedodd e wrth Naaman er mwyn cael rhywfaint o'r arian a'r dillad crand oedd gan Naaman yn ei feddiant?**

Cuddiodd y gwas yr arian a'r dillad, ond roedd Duw wedi datgelu popeth a ddigwyddodd wrth Eliseus ac felly, gofynnodd y proffwyd i Gehasi ble'r oedd e wedi bod. Dywedodd Gehasi gelwydd arall.

C **Beth oedd ateb Gehasi?**

Mae'n bosibl fod Gehasi wedi meddwl y câi ddianc heb gosb, ond roedd Duw eisoes wedi dweud wrth Eliseus am yr hyn a ddigwyddodd.

C **Beth ddigwyddodd i Gehasi?**

Arweiniodd trachwant Gehasi at gelwyddau ac yna at farn Duw. Dyma beth oedd diwedd trist i ddyn a dreuliodd flynyddoedd yng nghwmni gŵr Duw ac un a fu'n dyst i gynifer o wyrthiau grymus. Rydym ni i gyd yr un mor euog â Gehasi oherwydd yr holl bethau drwg a wnawn. Ni allwn newid ein hunain, yn union fel na fedrai Naaman ei iacháu ei hun. Rhaid i ni dderbyn y maddeuant sy'n dod oddi wrth Dduw. Mae 2 Corinthiaid 5:17 yn dweud wrthym, "Os yw rhywun yng Nghrist, y mae'n greadigaeth newydd; aeth yr hen heibio, y mae'r newydd yma."